# Western section

## Barry Sidings to Maesycoed

**Distance 2.4 miles / 3.9 km**
**Height gain 620 ft/ 189 m**

Barry Sidings Countryside Park: Car Park, toilets, seasonal café, approx 0.8 miles/ 1.3 km along the cyclepath to Trehafod Rail Station.

This section includes forest plantation (on FCW land, please obey any safety or diversion signs) and hillside footpaths. There are views across Pontypridd to Mynydd Eglwysilan (on the eastern section).

*At Gelliwion Road, Maesycoed you can return, downhill, to the town centre.*

# Adran orllewinol

## Barry Sidings i Faes-y-coed


Pellter: 2.4 milltir/ 3.9km,
Esgyniad: 620 tr / 189 m

Parc Gwledig Barry Sidings: Maes Parcio, tai bach, caffi tymhorol, Tua 0.8 milltir ar hyd y llwybr beicio i Orsaf Trehafod.

Mae'r adran hon yn cynnwys llwybrau drwy blanhigfa goedwig ac ar hyd llethrau. Yn yr adran ddwyreiniol, gellwch weld ar draws Pontypridd tua Mynydd Eglwysilan.

*Pan ddowch i Gelliwion Road, Maes-y-coed, gellwch gerdded i lawr y tyle yn ôl i ganol y dref.*





# Southern section

## Maesycoed to Treforest

**Distance 1.6 miles / 2.5 km,**
**Height gain 235 ft/ 72 m**

The section follows countryside paths through the new woodlands of the Gelliwion reclamation scheme to the Graig.

*At Llantrisant Road, Graig you can return, downhill, to the town centre.*

From the Graig, a short section of pavement leads to countryside paths through farmland and ffridd towards the University of Glamorgan main campus in Treforest.

*At the University of Glamorgan, you can follow Park Street, left, to Trefforest Rail station.*

# Adran ddeheuol

## Maes-y-coed i Drefforest

Pellter 1.6 milltir / 2.5 km,
Esgyniad 235 tr / 72 m

Mae'r adran hon yn dilyn llwybrau gwledig drwy goetiroedd newydd cynllun adfer tir Gelliwion i'r Graig.

*Pan ddowch i Llantrisant Road, y Graig, gellwch gerdded i lawr y tyle i ganol y dref.*

Mae adran fer o balmant yn arwain o'r Graig i lwybrau gwledig drwy dir ffermio a ffridd i brif gampws Prifysgol Morgannwg yn Nhrefforest.

*Pan ddowch i Brifysgol Morgannwg gellwch ddilyn Parc Street, i'r chwith, i orsaf Trefforest.*

# Northern section

## Trallwn to Barry Sidings

**Distance 2.6 miles / 4.2 km,**
**Height gain 770 ft/ 235 m**

The path climbs on a track through the woodland of Craig yr Hesg Local Nature Reserve. There are impressive crags, ancient trees, and dramatic views across Pontypridd.

*At Graigwen Road you can return, downhill, to the town centre.*

As the path turns downhill across the open hillside, the view shifts to the Rhondda valleys. Crossing the River Rhondda in Hopkinstown you return to Barry Sidings Countryside Park.

# Adran ogleddol

## Y Trallwn i Barry Sidings


Pellter 2.6 milltir / /4.2 km,
Esgyniad 770 tr / 235 m

Mae'r llwybr yn esgyn ar drac drwy goetir Gwarchodfa Natur Leol Craig yr Hesg. Gwelwch glogwyni trawiadol, coed hynafol, a golygfeydd dramataidd ar draws Pontypridd.

*Pan ddowch i Graigwen Road, y Graig, gellwch gerdded i lawr y tyle i ganol y dref.*

Wrth i'r llwybr droi ar i lawr ar draws y llethr agored, cymoedd Rhondda sy'n dechrau llenwi'r olygfa. Pan groeswch Afon Rhondda yn Nhrehopcyn, byddwch yn dychwelyd i Barc Gwledig Barry Sidings.



# Eastern section

## Treforest to Trallwn

**Distance 4.5 miles / 7.2 km,**
**Height gain 1128 ft/ 351 m**

The route through Treforest is on pavement, crossing the River Taff, under the A470 to Glyntaff.

From Glyntaff the path follows the edge of the cemetery then climbs steeply through farmland to the lane.

*From Hendre Prosser Farm you can follow a footpath, downhill, to the town centre.*

The climb continues, via lane and farm track, on to the open common and the summit of Mynydd Eglwysilan. Here there are spectacular views in all directions. The route from the common joins a lane downhill.

*From here you can follow Coedpenmaen Road, downhill, to the town centre.*

The route continues on pavement over the A470, through Trallwn to cross the River Taff.

*From here you can follow Berw Road, left, to the Town Centre.*

# Adran ddwyreiniol

## Trefforest i'r Trallwn

Pellter 4.5 milltir / 7.2 km,
Esgyniad 1128 tr / 351 m

Ar balmant mae'r llwybr drwy Drefforest, yn croesi Afon Taf ac yn mynd o dan yr A470 i Glyntaf.

O Glyntaf mae'r llwybr yn dilyn ymyl y fynwent ac yna yn esgyn yn eithaf serth drwy dir ffermio i'r lôn.

*Pan ddowch i Fferm Hendre Prosser, gellwch gerdded i lawr y tyle i ganol y dref.*

Dal i esgyn mae'r llwybr, ar hyd y lôn a'r trac fferm, i fyny i'r tir comin agored a chopa Mynydd Eglwysilan. Oddi yno gellwch weld golygfeydd godidog ym mhob cyfeiriad. Pan gerddwch i lawr y tyle, bydd y llwybr o'r comin yn uno â lôn.

*Oddi yno gellwch ddilyn Coedpenmaen Road i lawr y tyle i ganol y dref.*

Dilyn y palmant dros yr A470 mae'r llwybr a thrwy'r Trallwn i groesi Afon Taf.

*Oddi yno gellwch ddilyn Berw Road, i'r chwith, i ganol y dref.*

# Cylchol Pontypridd

**Tref farchnad brysur yw Pontypridd, lle mae calon diwylliant a threftadaeth y fro yn curo. Saif y dref lle mae Afon Rhondda yn llifo i Afon Taf, ymhlith bryniau hardd a gwlad brydferth.**



O'r llwybr hwn dros y bryniau cewch olygfeydd hyfryd o'r dref, yn ogystal â cherdded drwy goedydd hynafol, tir comin agored, rhostir, tir ffermio, a ffridd. Mae'n esgyn wedyn i fannau uchel sy'n cynnig golygfeydd godidog ar draws y cymoedd tua'r môr a thua Bannau Brycheiniog. Ar lwybrau troed cefn gwlad a lonydd gwledig tawel.

Mae arwyddion a marciau ffordd ar hyd y llwybr. Gellwch ei ddilyn yn y ddau gyfeiriad, neu gychwyn o unrhyw fan ar hyd y llwybr. Tua 12 milltir (18km) yw hyd y llwybr cyfan. Gellwch dreulio diwrnod cyfan yn cerdded ar hyd-ddo. Mae'n well i chi wisgo esgidiau cerdded, neu esgidiau cryf o leiaf.

Mae modd cerdded teithiau byrrach ar hyd rhannau o'r Llwybr Cerdded Cylchol. Gellwch gychwyn o Drefforest, Trehafod, neu ganol y dref. Cewch daflenni o **www.visitrct.wales**

Mae lluniaeth ar gael o siopau, tafarnau, a chaffis ar hyd y llwybr ac yng nghanol y dref hefyd. Mae gwybodaeth am lety ar gael ar y wefan.

Mae gwybodaeth am fysiau a threnau ar gael ar **www.traveline.cymru**



**cefngwlad@rctcbc.gov.uk**

# Pontypridd Circular

**Pontypridd is a bustling market town and a centre of culture and heritage. The town is built at the confluence of the Taff and Rhondda rivers and surrounded by beautiful hills and countryside.**



This walk provides a view of the town from the surrounding hills; passing through ancient woods, open common, moorland, farmland and ffridd. It climbs to panoramic vantage points for views across the valleys to the sea and to the Brecon Beacons. Mostly on countryside footpaths and quiet country lanes.

The walk is signposted and waymarked throughout. It can be followed in either direction and can be started at any point. The complete route is about 12 miles (18 km) long and makes a good day-long walk. Walking boots or strong shoes are recommended.

Shorter walks, using part of the Pontypridd Circular, can be followed from the Treforest, Trehafod areas or from the town centre. Leaflets from **www.visitrct.wales**

Refreshments are available from shops, pubs and cafes along the route and in the town centre. The website provides information about accommodation.

Bus & train information is available from **www.traveline.cymru**




**countryside@rctcbc.gov.uk**

# Cylchol Pontypridd

## Taith gerdded gylchol yn y bryniau o gwmpas Pontypridd

## www.visitrct.wales



**Cychwyn** o un o'r gorsafoedd: Trefforest, Trehafod, neu Barc Gwledig Barry Sidings


COUNTRYSIDE
CEFN GWLAD

RHONDDA CYNON TAF

# Pontypridd Circular

## A twelve-mile circular walk in the hills around Pontypridd

## www.visitrct.wales



**Start** from Rail stations at Trefforest or Trehafod or Barry Sidings Countryside Park

COUNTRYSIDE
CEFN GWLAD

RHONDDA CYNON TAF

# Pontypridd Circular / Cylchol Pontypridd

www.visitrct.wales

The Pontypridd Circular Walk is promoted by the Countryside Section of Rhondda Cynon Taf CBC.

Is-adran Cefn Gwlad Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf sy'n hywyddo Llwybr Cerdded Cylchol Pontypridd.

Contact / Cysylltwch â:
Email / Ebost: cefngwlad@rctcbc.gov.uk / countryside@rctcbc.gov.uk

## Map Key / Allwedd i'r Map


- Pontypridd Circular / Cylchol Pontypridd
- Link to Ynysangharad / Cyswllt i Barc Ynysangharad
- Main Road / Prif Ffordd
- Railway / Rheilffordd
- River / Afon
- Parking / Parcio
- Refreshments / Lluniaeth
- Open Access Land / Tir Mynediad Agored
- Bus Station / Gorsaf Bws
- Railway Station / Gorsaf Reilffordd
- View Point Including spot heights / Man Gwylio gan gynnwys yr uchder
- Toilets / Tai Bach
- Cycle Trail / Llwybr Beicio
- Museum / Amgueddfa
- Shops / Siopau
- Public House / Tafarn

The OS Explorer Map for Rhondda and Merthyr Tydfil (no. 166) covers Pontypridd.

Mae map Explorer Rhif 166 yr Arolwg Ordnans ar gyfer y Rhondda a Merthyr Tudful yn cynnwys Pontypridd.

Please respect the countryside code

Cofiwch barchu'r Côd Cefn Gwlad




Based on the Ordnance Survey Mapping with the permission of Her Majesty's Stationary Office © Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Rhondda Cynon Taf CBC Licence No. 100023458
Yn seiliedig ar waith Mapio'r Arolwg Ordnans gyda chaniatad Llyfrfa Ei Mawrhydi © Hawlfraint y Goron. Bydd atgynhyrchu heb awdurdod yn torri Hawlfraint y Goron a gall arwain at erlyn neu achos sifil. Rhif Trwydded CBS Rhondda Cynon Taf 100023458